

Crynodeb o'r Ymgynghoriad ynghylch Plant a Phobl Ifanc

Cynnig i gau Ysgol Fabanod Cwm Glas

28 Medi– 9 Tachwedd 2023





Helo, fy enw i yw **Vision** a
dyma fy nghi, **K9-2.1**
Rydyn ni yma i drafod
prosiect cyffrous gyda chi
a hoffen ni glywed eich
barn!



Cyflwyniad

- Beth mae'r cyflwyniad yma yn ei gynnwys?

Er mwyn rhoi cyfle i ddisgyblion leisio'u barn ynghylch y cynnig hwn.


Rydyn ni'n croesawu eich barn.



Rhaid i'r Cyngor ddilyn deddfwriaeth Llywodraeth Cymru sef **Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018** os bydd am wneud unrhyw newidiadau i ysgol.

Mae'n rhaid i'r Cyngor ysgrifennu at nifer o grwpiau fel Rhieni, Penaethiaid a Staff i ddweud wrthyn nhw am yr hyn y maen nhw'n bwriadu ei wneud a chasglu barn.

Mae angen i'r Cyngor hefyd gael eich barn am yr hyn rydyn ni'n ei gynnig ar gyfer eich ysgol oherwydd gallwch chi ein helpu ni i lunio'r hyn fydd yn digwydd.



Mae sawl ffordd o roi eich barn i'r Cyngor

- Cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein ar wefan y Cyngor
- Cwblhau'r ffurflen ymateb sydd wedi'i hatodi i'r Ddogfen Ymgynghori a'i dychwelyd i Dîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yng Nghaerffili
- Anfon eich sylwadau dros e-bost i Dîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yng Nghaerffili

Y ffordd hawsaf i chi yw cymryd rhan yn y sesiwn hon a bydd eich athrc yn rhoi adborth ar eich sylwadau.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad yma
Dydd Mercher 9 Tachwedd 2023



Ystyried cau Ysgol Fabanod Cwm Glas o fis Gorffennaf 2024

Pam?:

- Bellach mae llai o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol ac rydyn ni'n credu y bydd llai fyth yn y dyfodol.
- Mae disgyblion sy'n mynychu'r ysgol hon yn mynd i Ysgol Gynradd Coed y Brain ar gyfer addysg iau. Mae'r cynnig yn awgrymu bod y disgyblion hyn yn mynd i Ysgol Gynradd Coed y Brain yn y cyfnod babanod o fis Medi 2024.
- Os yw'r cynnig yn cael ei gytuno, bydd yr ysgol hon yn cau ym mis Gorffennaf 2024.



Beth yw eich barn chi?

Mae eich barn chi'n bwysig ac rydyn ni'n croesawu unrhyw sylwadau p'un a ydych chi'n cefnogi ein cynnig, yn erbyn ein cynnig, neu'n ansicr y naill ffordd neu'r llall.

Dyma cyfle i chi ofyn cwestiynau!

- A ydych chi'n cytuno â'r hyn rydyn ni'n bwriadu ei wneud?
- Oes gennych chi unrhyw syniadau am yr hyn yr hoffech chi ei gael mewn ysgol newydd?
- Oes gennych chi unrhyw syniadau eraill yr hoffech chi i ni eu hystyried?

Bydd eich sylwadau chi'n cael eu hychwanegu at Adroddiad y bydd pawb yn gallu ei weld a bydd yn helpu'r Cyngor i benderfynu beth i'w wneud nesaf.



Rhagor o Wybodaeth

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad yma
Dydd Mercher 9 Tachwedd 2023**

Ymgynghoriad 'Ysgol Fabanod Cwm Glas'

d/o Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu
Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Tŷ Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
CF82 7PG

ysgolionyr21ainganrif@caerffili.gov.uk

<https://www.caerffili.gov.uk//cymunedau-dysgu-cynaliadwy>

